

# **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr**

**Meddygfa Bron Meirion**

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd profiad y claf .....	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	18
5.	Y Camau Nesaf.....	20
6.	Methodoleg .....	21
	Atodiad A.....	23

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Feddygfa Bron Meirion yn Stryd y Castell, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6AL, ar 10 Ionawr 2017. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, ac arolygydd lleig.

Ymchwiliodd AGIC i sut roedd Meddygfa Bron Meirion yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Rhoddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau Ymarfer Meddygol Cyffredinol (meddygon teulu), ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Meddygfa Bron Meirion yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 7,400 o gleifion yn ardal Meirionnydd, Gwynedd ar hyn o bryd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae dwy gangen o'r feddygfa wedi eu lleoli yng Nghanolfan Iechyd Trawsfynydd, Trawsfynydd, Gwynedd LL41 4SB a Chanolfan Iechyd Ardudwy, Ffordd Morfa, Harlech, Gwynedd LL46 2US.

Mae meddygon y feddygfa'n darparu gwasanaethau meddygol i hyd at 18 o gleifion yn Ysbyty Alltwen, ysbyty cymunedol lleol. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth mân anafiadau yn yr ysbyty.

Mae'r practis yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr meddygaeth.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr practis, chwe meddyg, ymarferydd nyrsio, tair nyrs practis, dau gynorthwydd gofal iechyd, goruchwyliwr derbynfa a deg o staff derbynfa/gweinyddol.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau (fel y nodir ar ei wefan) gan gynnwys:

- Clefyd coronaidd y galon
- Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint
- Asthma
- Adolygiadau diabetig
- Pigiadau i'r cymalau
- Mân lawdriniaethau
- Rhewdriniaeth (hylif nitrogen)
- Gosod coil
- Cyngor atal cenhedlu
- Profion gwddf y groth
- Mân Anafiadau
- Monitro Warfarin
- Imiwneiddiadau Plentyndod
- Imiwneiddiadau teithio (gall cleifion nad ydynt wedi cofrestru gyda'r feddygfa fynychu ar gyfer imiwneiddiadau teithio) - mae'r feddygfa'n ganolfan achrededig ar gyfer y dwymen felen
- Clinigau fflw tymhorol
- Triniaethau a rhwymau gan nyrsys
- Cyngor iechyd a lles, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu
- Fflebotomi

### 3. Crynodeb

Ymchwiliodd AGIC i sut mae Meddygfa Bron Meirion yn cyrraedd safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Meddygfa Bron Meirion yn darparu gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn hapus gyda'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd cofnodion cleifion o safon dda
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda.
- Roedd y staff yn rhagweithiol o ran gwneud gwelliannau i wasanaethau ac roedd yn amlwg i ni pa newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud, e.e. gwella mynediad at bresgripsiynau amlroddadwy.
- Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.
- Roedd y tîm staff yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.
- Roedd y practis wedi ennill gwobr Buddsoddwyr mewn Pobl.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Trwsio'r sgrin wydr sydd wedi ei gosod ar ddesg y dderbynfa.
- Darparu ardal yn y dderbynfa i bobl gael trafodaethau preifat neu gyfrinachol.
- Trwsio'r system dolen sain.
- Ailadrodd yr arolwg boddhad cleifion i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni disgwyliadau cleifion yn effeithiol.
- Parhau gyda'r cynlluniau i wella mynediad i bobl ag anabledd.

- Asesu pa mor addas yw'r gwelyau archwilio ar ffrâm bren a ddefnyddir yn rhai o'r ystafelloedd ymgynghori.
- Darparu hyfforddiant cyfredol i staff, ar lefel sy'n briodol i'w swyddi, mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed.
- Darparu ffeiliau hyfforddiant unigol i'r staff a chofnodi'r holl hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant mewnlol.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwnaethom siarad â'r cleifion a defnyddio holiaduron i gael barn y cleifion.**

**Dyweddodd pobl wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Roedd gan y practis system ar waith i alluogi cleifion i leisio pryderon/cwynion ac roedd y practis yn gallu dangos ei fod wedi ystyried adborth cleifion i wella gwasanaethau.**

**Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion, yn enwedig ynglŷn â'u perthnasau â'r staff.**

Safon 4.1 – Gofal gydag Urddas

*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle y caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol.*

Canfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff.

Gwelsom fod staff yn cyfarch cleifion a oedd yn bresennol ac ar y ffôn mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chroesawgar, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a chanfuom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion wedi cael eu hystyried a bod yr amgylchedd ffisegol wedi cael ei addasu, cymaint ag y byddai modd. Roedd y dderbynfa yn cael ei gwahanu oddi wrth yr ardal aros gan ddesg a sgrin wydr. Roedd yn bosibl symud y sgrin yn ei hôl, os oedd angen, i alluogi cyfathrebu gwell. Roedd hyn yn rhoi preifatrwydd i'r staff wrth ateb y ffôn ac yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cadw o'r golwg. Gwnaethom sylwi fod y sgrin yn swllyd iawn pan oedd yn cael ei hagogor a'i chau a allai fod yn ddiflas i bobl a oedd yn eistedd yn yr ardal aros/derbynfa.

Dyweddodd staff y dderbynfa wrthym eu bod yn gallu defnyddio ystafelloedd ymgynghori preifat hefyd i drafod unrhyw faterion sensitif â chleifion, i gynnal cyfrinachedd. Gallai'r staff roi sylw i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn wrth ddesg y dderbynfa trwy ddrws ochr sy'n rhoi mynediad o'r dderbynfa i'r ardal aros. Cawsom ein hysbysu am gynlluniau i ailwampio'r dderbynfa er mwyn creu mynediad gwell ac i roi desg ar lefel is i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Dylai unrhyw waith ailwampio ystyried darparu ardal yn y dderbynfa i bobl gynnal



trafodaethau preifat neu gyfrinachol. Byddai hyn yn sicrhau ei bod yn bosibl cynnal sgysrsiau o'r fath pe na fyddai ystafell ymgynghori ar gael.

Roedd drysau ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn gofalu am gleifion. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau.

Yn y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod meddygon teulu wedi dogfennu cydsyniad y cleifion ar gyfer archwiliadau, y defnydd o hebryngwyr a manylion llawn y cyngor a gynigiwyd i'r cleifion. Roedd polisi ysgrifenedig ar y defnydd o hebryngwyr a dywedodd y staff wrthym mai dim ond staff nyrsio oedd yn gweithredu fel hebryngwyr. Hysbysebwyd yr hawl i gael hebryngwr ar bosteri yn ardaloedd y cleifion ac mewn ystafelloedd ymgynghori/triniaeth. Pe na fyddai unrhyw hebryngwyr ar gael yna byddai cleifion yn cael cynnig apwyntiad arall. Dylai'r practis ystyried hyfforddi staff y dderbynfa/staff gweinyddol i weithredu fel hebryngwyr er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael trwy'r amser.

Mae pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu e.e. gofalu am briod, partner, plentyn neu berthynas arall, yn cael eu nodi ar system cofnodion y practis er mwyn gallu cynnig cymorth ychwanegol. Mae gofaluwr o'r fath yn cael cyngor a gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai fod ar gael i roi cymorth iddynt fel y gwasanaeth allgymorth i ofalwyr ger y feddygfa.

Roedd staff y feddygfa wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth gofaluwr er mwyn iddynt allu darparu cymorth ychwanegol i bobl â chyfrifoldebau gofalu.

### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

***Dylid trwsio'r sgrin wydr sydd wedi ei gosod ar ddesg y dderbynfa.***

***Dylai unrhyw waith ailwampio ystyried darparu ardal yn y dderbynfa i bobl gynnal trafodaethau preifat neu gyfrinachol.***

Safon 4.2 Gwybodaeth am Gleifion

*Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal sy'n hygyrch, yn ddealladwy, ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion, i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.*

Safon 3.2 – Cyfathrebu'n Effeithiol

*Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.*

Roedd gwybodaeth gynhwysfawr i gleifion am wasanaethau'r practis ar gael ar ffurf taflen ac ar wefan y practis. Roedd y wybodaeth yn ddefnyddiol, gan gynnwys manylion tîm y practis, oriau agor, trefniadau y tu allan i oriau, y system apwyntiadau, y drefn ar gyfer cael presgripsiynau amlroddadwy, a sut y gallai cleifion gwyno.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei harddangos ac ar gael yn rhwydd yn y mannau aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor ar hybu iechyd, a hunanreoli cyflyrau iechyd. Roedd bwrdd dynodedig yn dangos gwybodaeth yn benodol i ofalwyr.

Dyweddodd pobl wrthym hefyd eu bod wedi cael yr opsiwn i gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol. Canfuom fod cymysgedd dda o staff yn siarad Cymraeg a Saesneg yn gweithio yn y feddygfa.

Dyweddodd pobl wrthym fod y staff yn siarad â nhw ac yn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.

Canfuom fod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac y gellid cael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar gyfer pobl a oedd angen gwybodaeth neu wasanaethau mewn ieithoedd eraill.

Roedd dolen sain yn y practis i gynorthwyo cyfathrebu â chleifion ag anawsterau clywed. Fodd bynnag, nid oedd hon yn gweithio ar adeg yr ymweliad.

### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

***Dylid trwsio'r system dolen sain.***

Safon 5.1 – Mynediad Amserol

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn derbyn gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir.*

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau yn bersonol yn y practis neu ar y ffôn. Roedd yn bosibl trefnu apwyntiadau ar-lein hefyd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y system hon yn cael ei defnyddio'n helaeth iawn. Roedd y

practis wedi adolygu'r system apwyntiadau ym mis Ionawr 2016 ac wedi gwneud newidiadau o ganlyniad. Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau brys ar yr un diwrnod, trefnu apwyntiadau arferol hyd at ddau fis ymlaen llaw neu roeddent yn gallu mynychu clinig 'eistedd ac aros'. Nid yw'r clinig 'eistedd ac aros' yn weithredol bob dydd a chynghorir y cleifion mai dim ond pan fydd staff y dderbynfa'n eu hysbysu y dylent fynychu Dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn ceisio rhoi apwyntiad i rywun yr oedd arno angen apwyntiad brys ar yr un diwrnod. Yn dilyn cyflwyno'r system apwyntiadau newydd, cynhaliodd y practis arolwg boddhad cleifion. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan ac amlygwyd unrhyw feysydd yr oedd angen eu gwella. Argymhellir y dylid ailadrodd yr arolwg boddhad cleifion i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni disgwyliadau cleifion yn effeithiol.

Mae'r tîm nyrsio'n gweld cleifion gyda mân salwch neu salwch cyffredin. Roedd y tîm nyrsio hefyd yn cynnal nifer o glinigau i gleifion â chyflyrau iechyd cronig er mwyn iddynt gael y gofal a'r driniaeth roedd eu hangen arnynt heb orfod gweld meddyg.

Canfuom fod atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill yn cael eu gwneud yn brydlon.

### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

**Dylid ailadrodd yr arolwg boddhad cleifion i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni disgwyliadau cleifion yn effeithiol.**

Safon 6.1 – Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth

*Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosïynol.*

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau yn ôl anghenion unigol pobl, ar sail y wybodaeth hon.

Mae rhannau o adeilad y practis yn hen ac mae rhannau newydd sydd wedi cael eu hadeiladu'n fwy diweddar. Mae rhai o'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr cyntaf. Gan nad oes esgynnydd i'r llawr hwn, gwneir trefniadau i bobl nad ydynt yn gallu defnyddio'r grisiau gael eu hymgyngoriadau/triniaeth ar y llawr daear.

Mae ardal fach wrth ochr/cefn yr adeilad ar gyfer parcio ac mae un lle parcio dynodedig i bobl ag anabledd. Dywedodd cleifion wrthym y gall parcio fod yn broblem oherwydd y diffyg lle. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi ystyried cael lle parcio ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes ardal addas sy'n agos at y feddygfa.

Mae mynediad ar gyfer pobl ag anabledd trwy ddrws ochr. Mae'r practis wedi nodi bod angen addasu'r fynedfa hon i sicrhau ei bod yn haws i bobl mewn cadeiriau olwyn sy'n gweithio gyda chymorth batri fynd i mewn i'r adeilad.

### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

***Dylai'r practis barhau gyda'r cynlluniau i wella'r fynedfa i bobl ag anabledd er mwyn ei gwneud yn haws i bobl mewn cadeiriau olwyn sy'n gweithio gyda chymorth batri fynd i mewn i'r adeilad.***

#### Safon 6.2 – Hawliau Pobl

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.*

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i wneud gwasanaethau'n hygyrch i gleifion â gwahanol anghenion a gofynion iaith, fel y disgrifir uchod.

Roedd trefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion.

#### Safon 6.3 – Gwrando a dysgu o adborth

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai a ddarparodd eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r practis wedi cynnal arolwg boddhad cleifion yn ddiweddar trwy gyfrwng holiadur. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan a thynnwyd sylw at unrhyw feysydd yr oedd angen eu gwella ac roeddent yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm lle y cytunwyd ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw faterion.

Roedd blwch yn yr ardal aros i bobl bostio sylwadau/pryderon am y gwasanaeth.

Mae'r system rheoli cofnodion a ddefnyddir yn y practis yn cynnwys adnodd sy'n cofnodi sylwadau gan gleifion. Mae'r practis yn bwriadu defnyddio'r adnodd hwn i gasglu adborth ffurfiol yn y dyfodol.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'<sup>1</sup>. Roedd gwybodaeth ynglŷn â sut i gwyno'n cael ei dangos yn yr ardal aros/derbynfa ac roedd hefyd yn y daflen gwybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd taflenni gwybodaeth a phosteri 'Gweithio i Wella' ar gael yn y dderbynfa/ardal aros hefyd.

Rhoddir pwyslais ar ymdrin â chwynion yn llygad y ffynnon er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi unrhyw angen am uwchgyfeirio. Mae pob cwyn yn cael ei chofnodi boed yn gŵyn a dderbyniwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig. Tynnir sylw rheolwr y practis at bob cwyn a bydd yn ymdrin â phob cwyn yn unol â pholisi cwynion y practis.

---

<sup>1</sup> Proses yw **Gweithio i Wella** ar gyfer ymdrin â Chwynion, Hawliadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn 'bryderon'. Mae hyn yn cynrychioli cryn newid diwylliant i'r GIG yng Nghymru yn y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o'i le, gan gyflwyno dull unigol a chyson ar gyfer graddio ac ymchwilio i bryderon, yn ogystal â mwy o dryloywder, a mwy o gysylltiad â'r unigolyn sy'n lleisio'r pryder.

## **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol**

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Canfuom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Roedd taflen wybodaeth gynhwysfawr a manwl am y practis ar gael i'r cleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi'n ddiogel ac i ddysgu o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu o safon dda.

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer cyfathrebu mewnol i sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth brosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion.

Roedd polisi ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac roedd y staff wedi cwblhau e-ddysgu yn y pwnc hwn.

Mae asesiadau risg cyffredinol a mwy uniongyrchol yn cael eu cynnal a rhoddir camau gweithredu ar waith ar gyfer unrhyw feysydd a nodir sydd angen sylw.

### **Gofal diogel**

Safon 2.1 – Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro, ac os oes modd, eu lleihau a'u hatal.*

Yn ystod taith o gwmpas adeilad y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd yr oedd gan y cleifion fynediad atynt yn lân ac yn glir o annibendod, a oedd yn lleihau'r perygl o faglu neu gwympto. Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n addas – y tu mewn a'r tu allan.

Roedd asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig y practis. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ei iechyd a diogelwch ei hun ac mae un o'r meddygon yn cymryd rôl arweiniol.

Canfuom fod gwiriadau diogelwch h.y. offer trydanol a diogelwch tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cadw.

Canfuom nad oedd gwelyau archwilio yn rhai o'r ystafelloedd ymgynghori'n addas gan eu bod wedi eu gosod ar y wal ac nid oedd yn bosibl addasu eu huchder gan ei gwneud yn anodd i bobl ag anawsterau symudedd fynd arnynt ac roedd yn anodd i staff clinigol fynd at ddwy ochr y gwely. Roedd eu ffrâm bren hefyd yn golygu y gallai'r corneli agored beri risg o anaf i gleifion. Roedd y paent wedi crafu ar arwyneb y fframiau a oedd yn eu gwneud yn fwy anodd eu glanhau gan gynyddu'r risg o groes-heintio.

Roedd parhad y busnes wedi cael ei ystyried ac roedd cynllun a threfniadau ffurfiol ar waith i reoli trychinebau ac argyfyngau iechyd sylweddol.

### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

***Dylai'r practis asesu pa mor addas yw'r gwelyau archwilio ar ffrâm bren a ddefnyddir yn rhai o'r ystafelloedd ymgynghori er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben, y gellir eu glanhau yn rhwydd ac nad ydynt yn peri risg o anaf i gleifion.***

Safon 2.4 – Atal a Rheoli Heintiau, a Dadheintio

*Mae angen i gamau atal a rheoli heintiau effeithiol fod yn fater i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion bob dydd ym maes gofal iechyd, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael er mwyn i bobl gael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.*

Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro plastig er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd yr ardaloedd triniaeth glinigol a welsom yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a chyfleusterau toiled. Roedd digon o hylif dadheintio dwylo ar gael o amgylch y practis.

Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gellid ei gasglu'n ddiogel. Gwelsom fod contract ffurfiol ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff.

Cadarnhaodd trafodaeth â staff nyrsio fod yr holl offer a ddefnyddir yn ystod mân lawdriniaethau'n cael eu prynu fel pecynnau wedi eu sterileiddio, i'w defnyddio untro. Roedd hyn yn osgoi'r angen am gyfarpar sterileiddio/dadheintio.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gyfrifol am gynnal asesiad o'u hamgylchedd gwaith eu hunain er mwyn rheoli risgiau heintiau.

Mae rheolwr y practis yn cadw cofrestr o statws imiwneiddio Hepatitis B y staff.

#### Safon 2.6 – Rheoli Meddyginiaethau

*Mae pobl yn derbyn y meddyginiaethau cywir am y rheswm cywir; maent yn cael dos cywir o'r feddyginiaeth gywir ar yr amser priodol.*

Canfuom fod systemau rheoli meddyginiaeth yn dda ac yn ddiogel ond eu bod yn cymryd llawer o amser y meddygon. Gallai'r practis elwa ar hyfforddiant diweddar i staff er mwyn iddynt chwarae mwy o ran mewn prosesu presgripsiynau. Gallai hyn hefyd leihau baich gwaith y meddygon teulu.

Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at bresgripsiynau amlroddadwy ar y ffôn, ar-lein, trwy asiantaethau eraill a thrwy alw yn y feddygfa yn bersonol.

Roedd unrhyw ymholiadau ynglŷn â meddyginiaeth yn cael eu cofnodi ar y system gyfrifiadur ac yn cael eu hadolygu gan un o'r meddygon.

Mae fferyllydd sy'n gyflogedig gan y bwrdd iechyd yn ymweld â'r feddygfa bob wythnos. Fodd bynnag, mae cyfraniad y fferyllydd yn gyfyngedig ac nid yw'n cynnwys archwiliad llawn o'r prosesau rheoli meddyginiaeth.

Dangosodd archwiliad diweddar a gynhaliwyd gan y 'clwstwr'<sup>2</sup> bod y practis yn rhagnodi lefel uchel o wrthfotigau. Efallai yr hoffai'r practis ystyried prynu peiriant profi<sup>3</sup>Protein C-Adweithiol er mwyn helpu gyda'u hymdrechion parhaus i geisio lleihau faint o wrthfotigau a ragnodir.

#### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

---

<sup>2</sup> Mae clwstwr practisau yn grŵp o feddygon teulu a phractisau, a bennir yn lleol gan fwrdd iechyd lleol unigol y GIG yng Nghymru. Maent yn dod â phractisau meddygon teulu, gwasanaethau nyrsgo ardal ac eiddilwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a chymunedol, a'r sector gwirfoddol at ei gilydd.

<sup>3</sup>Mae **Protein C-Adweithol** yn **brotein** anwlar (siâp modrwy), pentamerig sydd mewn plasma gwaed, y mae ei lefelau'n codi mewn ymateb i lid.



Dim.

#### Safon 2.7 – Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

*Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg.*

Canfuom fod polisi amddiffyn plant a pholisi diogelu oedolion ar waith ac roedd siartiau llif yn cael eu harddangos o gwmpas y practis a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt lleol ar gyfer adrodd am unrhyw bryderon.

Caiff achosion diogelu plant ac oedolion eu hamlygu ar y system cofnodion electronig fel bod y staff yn ymwybodol o broblemau o'r fath. Roedd cyfarfodydd diogelu plant yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda'r ymwelydd iechyd a oedd â swyddfa yn y feddygfa. Roedd cofrestrau ar waith i ganfod cleifion a oedd yn agored i niwed oherwydd anghenion iechyd meddwl, anabledau dysgu a rhai â chyfrifoldebau gofalu.

Roedd gan y practis feddyg teulu dynodedig a oedd yn arwain ar faterion amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn arwain trwy roi diweddariadau a sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith.

Canfuom fod yr holl feddygon yn y feddygfa wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu plant at Lefel 3. Roedd yr holl nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd a staff y dderbynfa/staff gweinyddol wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu plant at Lefel 2. Roedd trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i'r holl staff nyrsio a chynorthwywyr gofal iechyd ymgymryd â hyfforddiant diogelu plant at Lefel 3.

#### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

**Mae angen hyfforddiant cyfredol ar staff, ar lefel sy'n briodol i'w swyddi, mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed.**

#### **Gofal effeithiol**

#### Safon 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

*Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.*

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i hysbysu am a dysgu gan ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol.

Roedd digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu hadolygu gan reolwr y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion a chadarnhau bod adolygiadau o ddamweiniau a digwyddiadau'n cael eu cynnal, a bod aelodau perthnasol o dîm y practis yn dod at ei gilydd pan oedd angen, a chamau gweithredu'n cael eu trosglwyddo i staff.

Gwnaethom drafod y camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas ag un digwyddiad arwyddocaol a gwelsom fod hyfforddiant ychwanegol wedi cael ei ddarparu i leihau'r risg ei fod yn digwydd eto. Mae hyn yn dangos bod yr hyn a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau arwyddocaol wedi cael ei weithredu i wneud gwelliannau.

### Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol

*Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.*

Canfuom fod y systemau cyfathrebu mewnol yn dda a bod y system negeseuon electronig mewnol yn cael ei defnyddio'n dda.

Dywedodd staff wrthym y byddent yn cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol i gleifion ar gais ac y gallent ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan oedd eu hangen.

Roedd gan y practis systemau sefydledig ar gyfer rheoli cyfathrebu allanol a mewnol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth glinigol a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion ac yn cael ei rhannu'n brydlon ag aelodau perthnasol o dîm y practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn crynodebau rhyddhau cleifion o leoliadau gofal eilaidd yn electronig o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac roedd system electronig yn cael ei defnyddio i reoli atgyfeiriadau. Cyfarfu meddygon teulu yn rheolaidd i adolygu atgyfeiriadau a chanlyniadau a oedd yn gweithredu fel dull monitro.

Roedd system electronig ar waith i reoli atgyfeiriadau y tu allan i oriau ac roedd system ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu darllen a'u gweithredu'n brydlon.

## **Cadw cofnodion**

Safon 3.5 – Cadw Cofnodion

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol.*

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion electronig cleifion a chanfuom safon dda iawn o gadw cofnodion.

Roedd y nodiadau'n cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng staff clinigol a chleifion, ac roedd hi'n bosibl pennu canlyniad yr ymgynghoriadau a'r cynllun gofal ar gyfer y claf.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

Roedd strwythur rheoli clir ar waith yn y practis. Canfuom dîm staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac a ddywedodd wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Roedd staff hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan am y cyfleoedd hyfforddiant a oedd ar gael.

Canfuom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau gweithio yn y feddygfa.

Roedd systemau archwilio clinigol a chyffredinol ar waith a oedd yn caniatáu i staff fyfyrto a gwneud newidiadau a gwelliannau i'w harfer.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*

Ar y cyfan, canfuom arweinyddiaeth effeithiol a thîm staff sefydlog sy'n canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau y gallent ar gyfer eu cleifion. Roedd staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gweithio. Roedd ganddynt deimlad o berchnogaeth ynglŷn â'r practis ac roeddent yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ardaloedd gwahanol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent leisio pryderon wrth uwch staff.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i arwain y staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn aml, roedd staff a oedd yn gweithio yn y practis yn ymgymryd â rolau deuol ac yn gweithio'n hyblyg ar draws y tair meddygfa. Roedd hyn yn golygu bod staff yn gallu cyflenwi i'w gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o amharu ar wasanaethau i gleifion.

Gwelsom gofnodion o nifer o gyfarfodydd a oedd yn cadarnhau bod dulliau ar waith i helpu cyfathrebu rhwng y staff a ledled y practis.

Canfuom fod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn monitro a gwella arfer.

Roedd uwch staff y practis yn mynychu cyfarfodydd y 'clwstwr' ac yn defnyddio'r fforwm hwn fel modd o gynhyrchu gweithgareddau, gwella ansawdd a rhannu arfer da.

### **Staff ac adnoddau**

Safon 7.1 – Y Gweithlu

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion.*

Dangosodd trafodaethau â'r staff ac adolygiad o sampl o gofnodion staff eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu swyddogaethau penodol yn y practis.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a gwnaethant ddweud eu bod yn hapus yn eu swyddi. Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Dywedodd staff wrthym fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ac roedd y cofnodion yn cadarnhau hyn.

Canfuom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau gweithio yn y feddygfa.

Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, canfuom nad oedd yr holl hyfforddiant yr oedd y staff wedi ymgymryd ag ef yn cael ei gofnodi.

### **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella**

**Dylai'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff ffeil hyfforddiant unigol. Dylid cofnodi pob hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant mewnol, yn y ffeiliau hyfforddiant. Byddai hyn yn dangos sut mae'r staff yn cael eu cefnogi i fod yn gyfredol o ran gofynion hyfforddiant parhaus.**

## 5. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n rhaid i'r practis meddyg teulu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Meddygfa Bron Meirion yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi *cipolwg* o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r practis a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.



## Atodiad A

Practis Meddygol Cyffredinol:

Cynllun Gwella

Practis:

Meddygfa Bron Meirion

Dyddiad yr Arolygiad:

10/01/17

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
6.	<b>Dylid trwsio'r sgrin wydr sydd wedi ei gosod ar ddesg y dderbynfa.</b>	4.1	Bydd y practis yn trefnu i'r gwaith hwn gael ei gwblhau	Rheolwr y Practis	Gorffennaf 2017
7.	<b>Dylai unrhyw waith ailwampio ystyried darparu ardal yn y dderbynfa i bobl gael trafodaethau preifat neu gyfrinachol.</b>	4.1	Bydd hyn yn cael ei ystyried pan fydd gwaith yn digwydd i ailwampio'r adeilad	Rheolwr y Practis	2018
8.	<b>Dylid trwsio'r system dolen sain.</b>	4.2	Bydd y practis yn trefnu i'r gwaith hwn gael ei gwblhau	Rheolwr y Practis	Gorffennaf 2017

9.	<b>Dylid ailadrodd yr arolwg boddhad cleifion i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni disgwyliadau cleifion yn effeithiol.</b>	5.1	Bydd y practis yn parhau i gwblhau arolwg boddhad cleifion bob chwe mis.	Rheolwr y Practis	Gorffennaf 2017
10.	<b>Dylai'r practis barhau gyda'r cynlluniau i wella'r fynedfa i bobl ag anabledd er mwyn ei gwneud yn haws i bobl mewn cadeiriau olwyn sy'n gweithio gyda chymorth batri fynd i mewn i'r adeilad.</b>	6.1	Bydd newidiadau'n cael eu hystyried yn unol â chynlluniau ailwampio'r adeilad.	Rheolwr y Practis	2018
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
13.	<b>Dylai'r practis asesu pa mor addas yw'r gwelyau archwilio ar ffrâm bren a ddefnyddir yn rhai o'r ystafelloedd ymgynghori er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben, y gellir eu glanhau yn hawdd ac nad ydynt yn peri risg o anaf i gleifion.</b>	2.1	Byddwn yn ystyried newid y rhain yn unol â chynlluniau ailwampio'r adeilad.	Rheolwr y Practis	2018

15.	<b>Mae angen hyfforddiant cyfredol ar staff, ar lefel sy'n briodol i'w swyddi, mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed.</b>		Bydd yn ofynnol bod pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar-lein ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed	Rheolwr y Practis	Gorffennaf 2017
<b>Answadd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
19.	<b>Dylai'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff ffeil hyfforddiant unigol. Dylid cofnodi pob hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant mewnol, yn y ffeiliau hyfforddiant. Byddai hyn yn dangos sut mae'r staff yn cael eu cefnogi i fod yn gyfredol o ran gofynion hyfforddiant parhaus.</b>	7.1	Bydd holl hyfforddiant y staff yn cael ei gofnodi ar fatrics hyfforddiant yn hytrach na hyfforddiant gorfodol yn unig.	Rheolwr y Practis	Parhaus

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras): Nicky Jones.....**

**Teitl: Rheolwr y Practis.....**